



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

30 Gorffennaf 2019

Annwyl

### **ATISN 13279 – Hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 8 Gorffennaf 2019 am gyfanswm y cyllid sydd wedi ei ddyrannu yn benodol i hyrwyddo / marchnata addysg Gymraeg dros y 10 mlynedd diwethaf, gan Lywodraeth Cymru a / neu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, gyda'r cyfanswm ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani wedi'i hamgáu.

<b>Blwyddyn ariannol</b>	<b>Dyraniad cyllideb yn benodol ar gyfer marchnata/hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg</b>
2010-11	£10,000
2011-12	£160,000
2012-13	£64,000
2013-14	£150,000
2014-15	£165,000*
2015-16	£65,000
2016-17	£130,000

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Doc Fictoria  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1TH

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of  
Contact Centre 0300 0604400

<b>Blwyddyn ariannol</b>	<b>Dyraniad cyllideb yn benodol ar gyfer marchnata/hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg</b>
2017-18	£130,000
2018-19	£185,000
2019-20	Swm heb ei glustnodi eto
<b>Cyfanswm</b>	<b>£1,059,000</b>

\* Dyraniad ar gyfer marchnata / hyrwyddo'r Gymraeg yn gyffredinol

Nid yw'r ffigurau uchod yn cynnwys cyllidebau a ddyrannwyd i brosiectau, raglenni neu grantiau sydd/oedd yn cyfrannu'n sylweddol at y nod o farchnata addysg Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Twf
- Cymraeg i Blant
- Y Siarter Iaith
- RhAG
- Marchnata adnoddau dysgu ac addysgu a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru
- Rhaglen Cymraeg i Oedolion a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Mentrau Iaith
- Mudiad Meithrin
- Urdd Gobaith Cymru

Mae marchnata a hyrwyddo addysg Gymraeg yn elfennau cynhenid o'r rhaglenni a'r prosiectau hyn. Fodd bynnag, nid ydym yn cadw gwybodaeth am y cyllid a ddyrannwyd yn benodol i a/neu a wariwyd ar hyrwyddo a marchnata addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y rhaglenni a'r prosiectau hyn.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: [rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru](mailto:rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru)

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir